Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gymunedol Croesgoch
Llanrhian Road
Croesgoch
Haverfordwest
Pembrokeshire
SA62 5JT

18/02/2025

Annwyl Mari Jones

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Croesgoch yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Rhagfyr 2016. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau
- siarad a disgyblion
- gyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- graffu ar waith disgyblion
- graffu ar ddogfennaeth

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi dylanwadu'n briodol ar gryfhau'r ddarpariaeth er mwyn ymateb i'r argymhellion isod. Maent yn cydnabod bod ychydig o feysydd y gallent barhau i wella.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

**Ffocws yr ymweliad**

**Codi safonau ysgrifennu, Cymraeg mamiaith ac ail iaith, a mathemateg ar draws yr Ysgol**

- Mae gan y pennaeth gweithredol a'r staff weledigaeth gadarn sy'n cefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn adeiladol mewn amgylchedd dysgu Cymreig. Trwy gydweithio bwriadus gyda'r corff llywodraethol, y rhieni a'r gymuned ehangach, mae'r disgyblion yn arddel yr iaith yn fedrus ac yn falch o siarad Cymraeg fel rhan gynyddol naturiol o'u dysgu a'u chwarae. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at gefnogi'r disgyblion ar draws yr ysgol i fagu hyder wrth feithrin eu medrau dwyieithrwydd erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.
- Mae staff yn cydweithio'n ddiwyd o fewn yr ysgol a thu hwnt wrth gefnogi disgyblion i wella eu medrau llafar a llythrennedd Cymraeg, ynghyd â'u medrau rhifedd. Dros gyfnod, mae cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i staff wedi cyfrannu'n gadarn at sicrhau dealltwriaeth briodol o ddulliau addysgu a dysgu effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau.
- Mae gan athrawon a chynorthwywyr berthynas weithiol gynhaliol gyda'r disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a chyson o'r disgyblion sy'n meithrin eu brwdfrydedd a'u cymhelliant at ddysgu yn effeithiol. Trwy gynhaliaeth sensitif ac anogaeth gyson staff, mae'r disgyblion yn awyddus i ddysgu heb ofn methu gan ddatblygu eu geirfa a phatrymau brawddeg yn adeiladol dros amser.
- O'u mannau cychwyn amrywiol, mae medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn mwynhau siarad Cymraeg ac yn gweld budd o ddysgu'r iaith fel rhan o'u profiad dysgu ynghyd â'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.
- Gyda chefnogaeth effeithiol staff, mae geirfa a phatrymau iaith disgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt gymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu. Mae staff yn darparu cyfleoedd bwriadus iddynt gasglu a choladu gwybodaeth mewn gwahanol gyd-destunau gan eu cefnogi'n dda i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau. At ei gilydd, mae staff yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu creadigol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu'n gyson mewn gweithgareddau sy'n eu cefnogi'n llwyddiannus i wneud cynnydd. Maent yn herio eu hunain a'u cyfoedion i gyflawni'n dda ar draws y meysydd dysgu.
- Mae diddordeb a brwdfrydedd athrawon a disgyblion at y maes dysgu mathemateg a rhifedd yn nodwedd gref o'r ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth adeiladu ar eu medrau mewn ystod amrywiol o gyd-destunau dysgu.

**Gwella'r broses hunanarfarnu fel ei bod yn canolbwyntio'n fanwl ar godi safonau i ddisgyblion**

- Ers ei phenodiad yn 2022, mae'r pennaeth gweithredol a'r staff wedi datblygu adnabyddiaeth dda o'r ysgol. Mae dysgu proffesiynol a myfyrio gofalus wedi galluogi'r pennaeth gweithredol i wneud penderfyniadau gwybodus i fireinio ac addasu prosesau monitro a hunanwerthuso'r ysgol.
- Mae arweinwyr yn casglu gwybodaeth o sawl ffynhonnell ac yn ei ddefnyddio'n bwrpasol. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ac yn gwneud defnydd addas o'u canfyddiadau er mwyn adnabod yr ardaloedd sydd angen gwella. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi gwrando ar awgrymiadau synhwyrol rhanddeiliad, wedi craffu ar lyfrau'r disgyblion a chydnabod yr angen i wella safonau sillafu Saesneg disgyblion. O ganlyniad, maent wedi gosod camau pendant er mwyn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon sydd eisoes yn cael effaith cadarnhaol ar fedrau disgyblion.
- Mae athrawon a llywodraethwyr yn cyfrannu'n adeiladol at y gwaith monitro trwy graffu ar lyfrau a thrafodaethau cyson am effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Maent yn cefnogi ei gilydd yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol fel un tîm cytûn. Er hynny, prin yw'r cyfleoedd i athrawon arsylwi ei gilydd er mwyn efelychu arferion effeithiol o'r ddarpariaeth.
- Mae'r arweinwyr yn cynnal trafodaethau datblygiad proffesiynol yn rheolaidd gyda staff ac yn trefnu hyfforddiant buddiol sydd yn cwrdd ac anghenion blaenoriaethau'r ysgol yn ogystal â datblygiad proffesiynol athrawon unigol. Yn dilyn gosod blaenoriaeth ar wella medrau rhifedd disgyblion, trefnwyd cyfres o sesiynau hyfforddi er mwyn datblygu dealltwriaeth a disgwyliadau'r athrawon ymhellach. Mae hyn yn golygu bod medrau'r disgyblion wedi gwella dros gyfnod a bod eu brwdfrydedd a'u hoffter at ddefnyddio rhifedd ar draws y cwricwlwm yn nodwedd amlwg.
- Mae staff yn cydweithio'n dda gydag ysgolion yr ardal i ddatblygu eu medrau ac i wella eu dealltwriaeth o sut i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm. Maent yn trafod cynnwys llyfrau disgyblion ac yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o ddisgwyliadau cyrhaeddiad. O ganlyniad, mae gan athrawon ar draws yr ysgol ddisgwyliadau uchel o ran cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6682270

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol